



SAFLEOEDD BWYD A DIOD

CRYNODEB



SAFLEOEDD BWYD A DIOD

CRYNODEB

Mai 2016

LLUNIWDYD AR RAN LLYWODRAETH CYMRU GAN WAVEHILL AC ADAS

CYSYLLTIADAU ARWEINIOL:

Mark Willis

Mark.Willis@wavehill.com

wavehill
social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Alison Leeder

Alison.Leeder@adas.co.uk



Ynglŷn â'r ddogfen hon:

Mae'r ddogfen hon yn grynodedb o ganfyddiadau gwaith ymchwil sy'n ymchwilio i Safleoedd Bwyd a Diod. Mae'r prosiect yn archwilio i ba raddau y mae cynllunio neu faint o dir sydd ar gael yn cynnig cyfle neu rwystr i ehangu'r sector Bwyd a Diod yng Nghymru.

Mae adroddiad llawn ar gael ar wahân, ynghyd â phum astudiaeth achos a thaflen ffeithiau a luniwyd i gynorthwyo busnesau i baratoi ceisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd newydd.

Cynnwys

1. Canfyddiadau Allweddol	4
2. Cyflwyniad	6
3. Y Sector Bwyd a Diod yng Nghymru.....	7
4. Cymorth i'r Sector Bwyd mewn Dogfennau Polisi Cynllunio	10
5. Y Broses Ymgeisio am Ganiatâd Cynllunio i Fusnesau'r Sector Bwyd a Diod .	10
6. Y Sector Bwyd a Diod: Safbwynt Cynllunwyr.....	12
7. Y Broses Gynllunio o Safbwynt Busnesau Bwyd a Diod.....	13
8. Casgliadau ac Argymhellion	15

1. Camau gweithredu a chanfyddiadau allweddol

Camau gweithredu allweddol o'r gwaith ymchwil:

1. Darparu cymorth i alluogi busnesau i ddewis y safle cywir a sicrhau bod tir a safleoedd ar gael yn y lleoliadau 'cywir'.
2. Annog busnesau i gynnal ymgynghoriad ar gam cynnar gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol a rhanddeiliaid allweddol; cynorthwyo busnesau i sicrhau eu bod yn cyflwyno'r dogfennau cywir mewn ceisiadau cynllunio a mynd drwy'r broses gynllunio yn y ffordd fwyaf effeithiol.
3. Cynorthwyo Awdurdodau Cynllunio Lleol i ddeall y Sector Bwyd a Diod a sut i ymdrin â'u ceisiadau yn fwy effeithiol.
4. Sicrhau bod busnesau yn y Sector Bwyd a Diod yn glir ynglŷn â manteision economaidd a chyflogaeth eu busnes i'r economi lleol a chenedlaethol, a'u bod yn gallu cyfleu'r manteision hyn wrth yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'r gymuned leol.

Canfyddiadau allweddol eraill:

- Nid yw polisi cynllunio cenedlaethol yn rhoi ystyriaeth benodol i safleoedd gradd bwyd.
- Nid yw'r rhan fwyaf o gynllunwyr awdurdodau lleol yn rhoi ystyriaeth benodol i safleoedd gradd bwyd yn eu hardal awdurdod lleol ac mae llawer heb fod yn gyfarwydd â'r term. Maent yn canolbwyntio ar neilltuo safleoedd cyflogaeth sy'n creu swyddi a buddsoddiad.
- Yn aml, mae ar safleoedd gradd bwyd angen safleoedd ar wahân yn sgil y posibilrwydd o halogi bwyd a ffactorau glendid.
- Y mae tystiolaeth anecdotaidd o gyfweiliadau yn yr adroddiad hwn sy'n awgrymu bod angen rhagor o Barciau Busnes neu Glystyrau Gradd Bwyd yn benodol.
- Cymharol anffurfiol yw'r broses ymgynghori cyn ymgeisio ar hyn o bryd (er bod disgwyl i hyn newid ym mis Awst 2016). Mae'r cyfweiliadau â swyddogion cynllunio a busnesau yn awgrymu bod ymgynghori cyn ymgeisio yn werthfawr gan y gall arbed amser ac adnoddau drwy nodi materion technegol a chyhoeddus a mynd i'r afael â hwy.

- Caiff mwy o ddeialog, ond deialog sy'n llai ffurfiol yn dechnegol, ei hannog rhwng cynllunwyr lleol, busnesau a grwpiau busnes, swyddogion datblygu a thrigolion a chymunedau hefyd lle y cânt hwy eu heffeithio.
- Teimla'r cynllunwyr fod digonedd o safleoedd cyflogaeth ar gael yn arbennig ar hyd coridor yr M4 y gellid eu defnyddio gan fusnesau'r sector Bwyd a Diod; teimla busnesau bod diffyg safleoedd gradd bwyd sy'n barod i'w defnyddio.
- Yn gyffredinol, byddem yn argymhell darparu deunydd gwybodaeth i gynllunwyr y sector bwyd, yn nodi anghenion penodol busnesau gweithgynhyrchu bwyd a safleoedd gradd bwyd i'w galluogi i ddeall y sector yn well a gwerthuso p'un a yw safleoedd cyflogaeth presennol yn addas.

2. Cyflwyniad

Mae'r astudiaeth yn archwilio i ba raddau y mae tir ar gael ar gyfer safleoedd newydd ac i ba raddau y mae cynllunio yn rhwystr neu'n alluogydd i ddatblygu safleoedd gan gynorthwyo'r sector i dyfu.

Mae *Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020*, (Y Cynllun Gweithredu) yn gwneud ymrwymiad i 'dyfu'r sector Bwyd a Diod gan 30 y cant i £7 biliwn y flwyddyn erbyn y flwyddyn 2020'.

I gyflawni'r twf hwn, bydd angen cynnydd yn nifer y safleoedd sydd ar gael sydd o radd addas i brosesu bwyd. Bydd datblygu'r safleoedd hyn yn aml yn galw am ganiatâd cynllunio.

Rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol sicrhau bod digon o dir ar gael i ganiatáu twf ac yr ymdrinnir â cheisiadau cynllunio yn gadarnhaol ac effeithiol er mwyn hwyluso twf.



Roedd y gwaith ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer yr adroddiad hwn yn cynnwys:

- dadansoddi data'r Asiantaeth Safonau Bwyd i lunio map sy'n dangos dosbarthiad a lleoliad cyffredinol safleoedd gradd bwyd yng Nghymru
- adolygu polisiâu cynllunio cenedlaethol a lleol ar gyfer pob un o'r 25 o Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru
- adolygu 57 o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau'r sector Bwyd a Diod ledled Cymru
- cyfweiliadau â swyddogion cynllunio o 13 o Awdurdodau Cynllunio Lleol
- cyfweiliadau astudiaethau achos gydag 20 o fusnesau a chyfweiliadau rhanddeiliaid allweddol gyda'r Swyddog Datblygu Busnesa ar gyfer y Sector Bwyd yng Nghyngor Sir Caerfyrddin a'r Ganolfan Fwyd yn Horeb.

3. Y Sector Bwyd a Diod yng Nghymru

Sector Bwyd a Ffermio yw un o naw o sectorau blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys amaethyddiaeth, cynhyrchu ar y fferm a gweithgynhyrchu bwyd. Mae'r gadwyn gyflenwi Bwyd a Diod yng Nghymru yn cynnwys cynhyrchu cynradd, gweithgynhyrchu, manwerthu, cyfanwerthu ac arlwyo di-breswyl.

O ran y prif ffigurau, mae'r gadwyn gyflenwi Bwyd a Diod yng Nghymru yn cyflogi 223,100 (2014) o bobl, mewn 26,765 o unedau busnes (2015), gyda throsiant o £16.8bn (2013).

Fodd bynnag, y mae'r sector Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod, y mae llawer o'r adroddiad hwn yn berthnasol iddo, tua 10% o faint y sector cyfan. Mae angen safleoedd gradd bwyd ar y rhan hon o'r sector ac am resymau diogelwch bwyd a glendid mae ei gofynion yn wahanol iawn i amaethyddiaeth, manwerthu, cyfanwerthu neu arlwyo.

Mae'r prif ddata isod yn well ffordd o gynrychioli'r adroddiad hwn:

Mae'r Sector Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod yng Nghymru¹:

- yn cyflogi **22,100 o bobl** (2014)
- mewn **555 o unedau busnes** (2015)
- gyda **throsiant o £4.8bn** (2013) a
- **Gwerth Ychwanegol Gros o £1.45bn** (2013)
- **174 o enillwyr Gwobr Great Taste** (2015)
- **4 enw bwyd wedi'u hamddiffyn** – Cig Oen Cymru PGI, Cig Eidion Cymru PGI, Tatws Cynnar Sir Benfro PGI a Halen Môn PDO (2015).

Mae'r rhan hon o'r sector yng Nghymru yn cynrychioli:

- 1.7 y cant o holl gyflogaeth Cymru
- 0.5 y cant o gyfanswm nifer yr unedau busnes yng Nghymru
- 4.6 y cant o drosiant yr economi ac eithrio busnesau ariannol yng Nghymru. (Cyfartaledd y Deyrnas Unedig yw 2.5 y cant).
- 5.3 y cant o drosiant sector bwyd a diod y Deyrnas Unedig


Mae 68% o'r unedau busnes gweithgynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru yn cyflogi llai na 10 o bobl. Mae 20 o fusnesau mawr yn y sector, ac yn cyflogi mwy na 250 o bobl. Mae'r lefel sgiliau yn is na lefel sgiliau'r Deyrnas Unedig.

¹ Bwyd a Diod Cymru; Llywodraeth Cymru gan Brookdale Consulting 2016

Yn ôl data a gyfrifwyd o'r Arolwg Busnes Blynyddol, mae gweithgynhyrchu bwyd a diod wedi cynyddu 54 y cant o ran Gwerth Ychwanegol Gros yn ystod y naw mlynedd diwethaf (2005 i 2013).

Y mae eisoes rai lleoliadau allweddol i'r sector bwyd yng Nghymru, sydd wedi'u mapio yn Ffigur 2.1 isod.

Ffigur 2.1: Safleoedd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru



Lluniwyd y map hwn yn Saesneg, ac yn anffodus nid oes modd darparu cyfieithiad Cymraeg.

4. Cymorth i'r Sector Bwyd mewn Dogfennau Polisi Cynllunio

Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn cynnwys cefnogaeth gref i ddatblygiadau sy'n hwyluso **datblygiad economaidd a chyflogaeth**.

Mae polisi cenedlaethol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol nodi a neilltuo tir at ddefnydd cyflogaeth i ateb galw busnesau yn eu hardaloedd. Mae polisi cenedlaethol yn glir ei gefnogaeth i elfen amaethyddiaeth y sector ond nid oes cefnogaeth uniongyrchol na chlir i'r sector Bwyd a Diod yn ei gyfanrwydd.

Yn bresennol, mae gan Gymru 25 o Awdurdodau Cynllunio Lleol, sef 22 o awdurdodau unedol a thri Pharc Cenedlaethol.

Yr Awdurdodau Cynllunio Lleol hyn sy'n penderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer y sector Bwyd a Diod. Mae'r Cynlluniau Datblygu Lleol yng Nghymru yn cynnwys rhai polisiau ar arallgyfeirio gwledig, amaethyddiaeth, mynediad at fanwerthu bwyd a rhywfaint o sylwadau am gynaliadwyedd bwyd.

O ystyried y twf economaidd cymharol araf dro yr ychydig flynyddoedd diwethaf, **y mae tir sylweddol yn dal i fod ar gael at ddefnydd cyflogaeth**.

Ond er bod cyfanswm o lawer o dir, ac eithrio mewn lleoliadau nodedig fel Canolfan Bwyd Cymru (Ceredigion) a Pharc Bwyd Cross Hands (Sir Gaerfyrddin), **y chydig o dir sydd wedi'i neilltuo i'r sector Bwyd a Diod yn benodol**, ac mae diffyg tystiolaeth i werthuso p'un a yw'r tir sydd wedi'i neilltuo yn addas i'r sector.

Weithiau mae angen i fusnesau bwyd fod wedi'u lleoli i ffwrdd o ddiwydiannau eraill er mwyn osgoi halogi, gan awgrymu, mewn rhai achosion, nad yw tir cyflogaeth ar stadau diwydiannol mor addas i fusnesau'r sector Bwyd a Diod ag ydyw i ddiwydiannau eraill. Mae'n bosibl nad oes dealltwriaeth eang o'r pwynt hwn ymhlith cynllunwyr a allai fod yn ystyried bod y rhan fwyaf o dir cyflogaeth dosbarth B yn addas.

Yn gyffredinol, mae angen mwy o waith ymchwil i sefydlu p'un a yw safleoedd sydd wedi'u neilltuo ledled Cymru yn addas i fusnesau'r sector Bwyd a Diod ac, os nad ydynt, sicrhau bod safleoedd neu adeiladau amgen ar gael.

5. Y Broses Ymgeisio am Ganiatâd Cynllunio i Fusnesau'r Sector Bwyd a Diod

Cynhaliwyd adolygiad o 57 o geisiadau cynllunio (2006 hyd 2016) ar gyfer safleoedd i'r sector Bwyd a Diod yng Nghymru er mwyn cael dealltwriaeth o brofiad y sector Bwyd a Diod o gael caniatâd cynllunio ar gyfer safleoedd newydd.

Edrychai'r gwaith ymchwil ar;

- ddyfnder y wybodaeth sydd ei hangen
- i ba raddau y gwrthodwyd ceisiadau
- yr amserlen ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Roedd y canfyddiadau'n cynnwys;

- roedd y rhan fwyaf o'r ceisiadau wedi'u lleoli ar safleoedd wedi'u neilltuo ar gyfer cyflogaeth megis parciau diwydiannol neu dir a ddatblygwyd yn flaenorol – **nid safleoedd maes glas.**
- caiff ceisiadau ar barciau diwydiannol neu ar **dir llwyd** yn gyffredinol eu cymeradwyo yn gyflymach – roedd y rhai mewn ardaloedd mwy gwledig yn aml yn fwy cymhleth ac yn cymryd hwy i gael caniatâd.
- o'r 57 o geisiadau a adolygwyd, cymeradwywyd 49 (naill ai'n lleol neu drwy apêl), roedd tri yn aros am benderfyniad, roedd tri wedi'u tynnu'n ôl ac nid oedd gwybodaeth ar gael am ddau ohonynt. **Ni wrthodwyd yr un cais yn y pen draw.**
- roedd gan rai o'r busnesau a gyfwelwyd **ganfyddiad o risg** o wario arian ar gais rhag ofn y câi ei wrthod – yn gyffredinol, roedd yn ymddangos bod y risg hon yn fwy o ganfyddiad na realiti.
- cymeradwywyd tua 1/3 o'r ceisiadau o dan bwerau dirprwyedig ac ni fu'n rhaid iddynt gael eu hystyried gan bwyllgor cynllunio.

Roedd y ceisiadau cynllunio yn cynnwys;

- gofynion ceisiadau safonol megis Ffurflen Gais, Cynllun Lleoliad, Cynlluniau (Llawr a Gwedduniau) a Datganiadau Dylunio a Mynediad.
- rhai asesiadau llifogydd a/neu ecoleg.
- y nifer ddisgwyliedig o staff, cyflogeion ac ymwelwyr.
- cyflenwadau a defnydd o gerbydau ac amledd.
- mathau o allyriadau (sŵn, llwch ac aroglau) sydd oll yn effeithio ar y manylion a'r gost sy'n gysylltiedig â'r cais.
- Prin iawn oedd y ceisiadau lle'r oedd gofyn cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, ond roeddynt yn fwy cyffredin yn achos safleoedd newydd.

Mae ymgynghori cyn ymgeisio neu cyn cynllunio yn ddefnyddiol ac yn arwain at benderfyniadau cynllunio cyflymach;

Mae'r gwaith ymchwil yn cefnogi'n gryf yr angen i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio â'r Awdurdod Cynllunio Lleol i sefydlu egwyddor y datblygiad a chytuno ar ba wybodaeth sydd i'w darparu fel rhan o'r cais. **Tueddai'r ymgeiswyr a gynhaliodd ymgynghoriadau cyn ymgeisio gael penderfyniadau cyflymach** a chael llai o geisiadau am wybodaeth ar ôl i gais gael ei gyflwyno. Roedd modd iddynt hefyd sicrhau cyn lleied â phosibl o amodau cynllunio ac osgoi amodau beichus.

Roedd manteision busnesau'r sector Bwyd a Diod i'r ardal leol bob amser yn pwyso o blaid y cynigion, gan adlewyrchu'r gefnogaeth sydd i fusnesau sy'n creu swyddi mewn polisiau cynllunio cenedlaethol a lleol. Yn ôl ymgeiswyr a fynegodd fanteision y cynlluniau i'r ardal leol, ystyriwyd bod y manteision yn pwyso o blaid y cynigion gan swyddogion cynllunio a Phwyllgorau Cynllunio. **Y mae budd felly i sicrhau y caiff manteision y cynllun eu cyfleu'n glir mewn dogfennau cynllunio.**

6. Y Sector Bwyd a Diod: Safbwynt Cynllunwyr

Cynhaliwyd cyfweiliadau hefyd â 13 o gynllunwyr Awdurdodau Cynllunio Lleol, gan gynnwys 10 o arweinwyr timau polisi cynllunio, dau reolwr cynllunio cyffredinol ac un arweinydd tîm rheoli datblygu.

Roedd lefel wybodaeth y cynllunwyr ynglŷn â'r sector Bwyd a Diod yn **amrywiol'n sylweddol** rhwng unigolion – ni allai'r un o'r cynllunwyr gyfeirio at unrhyw daenleni, rhestrau o fusnesau bwyd nac unrhyw ddogfen arall ynglŷn â'r sector yn eu Hawdurdod Cynllunio Lleol.

Roedd y cynllunwyr yn glir bod **cynllunio yn alluogydd ar gyfer twf economaidd** ac y dylai manteision economaidd gael eu cydnabod wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, a'u bod yn cael eu cydnabod felly.

Ond dim ond dau o'r 13 o gyfweleion a ddwedodd bod y sector Bwyd a Diod yn benodol o bwysig i'w hardal neu fod y sector yn derbyn cefnogaeth benodol.

Aeth rhai cyfweleion gam ymhellach gan ddweud na all, ac na ddylai cynllunio annog un math o dwf economaidd neu sector dros fath arall. Ond dangosodd yr adolygiad polisi fod rhai Cynlluniau Datblygu Lleol yn rhoi cefnogaeth benodol i sectorau eraill, twristiaeth yn benodol.

Pan ofynnwyd iddynt ddisgrifio'r sector Bwyd a Diod yn eu hardal, ni chyfeiriodd y cynllunwyr at unrhyw ddiffiniad unigol o'r sector, ac ni chyfeiriodd yr un o'r cyfweleion at godau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol na chategoriâu busnes yn ôl diffiniadau'r rhestrau o safleoedd a gymeradwywyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. O ganlyniad, amrywai'r mathau o fusnesau a drafodwyd yn ystod y cyfweiliadau yn sylweddol, wrth i'r cyfweleion drafod popeth o fanwerthu bwyd, prydau parod poeth a siopau fferm, i warysau dosbarthu Tesco ac amaethyddiaeth. Mae angen arweiniad pellach i helpu cynllunwyr i ddeall y sector ac felly cynllunio'n effeithiol ar ei gyfer.

Fel sector sy'n flaenoriaeth, byddai gwerth mewn camau i gynyddu dealltwriaeth cynllunwyr o'r sector gweithgynhyrchu Bwyd a Diod a sut gallai eu hanghenion fod yn wahanol i anghenion diwydiannau eraill.

Gallai hyn gael ei gyflawni mewn nifer o wahanol ffyrdd, gan gynnwys offer/digwyddiadau addysgol i gynllunwyr ac annog busnesau'r sector gweithgynhyrchu Bwyd a Diod i ymgysylltu mwy â'r broses o lunio polisi ac ymgynghori cyn ymgeisio. Gallai fod rôl i'r Ffederasiwn Bwyd a Diod a/neu Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru i hwyluso hyn.

7. Y Broses Gynllunio o Safbwynt Busnesau Bwyd a Diod

I ddeall yr hyn mae busnesau yn ei feddwl am y broses gynllunio, cyfwelwyd ag 20 o fusnesau gweithgynhyrchu Bwyd a Diod. O'r busnesau hyn, gweithgynhyrchwyr bwyd oedd 17 ohonynt, a dosbarthwyr oedd y tri arall.

Gweithredai mwyafrif y busnesau o un safle ($n = 14$); roedd tri yn gweithredu ar draws dau safle, ac gweithredai dau gwmni (dosbarthwyr ill dau) o bum safle.

Dyma ganfyddiadau allweddol y cyfweiliadau;

- mae busnesau yn ystyried bod paratoi cais cynllunio yn risg ariannol oherwydd pe na chaiff y cais ei ganiatáu byddai'r arian a fuddsoddir yn y cais yn cael ei gollu.
- meddai'r busnesau nad yw'r cynllunwyr bob amser yn cydnabod y goblygiadau ariannol sydd i geisiadau am wybodaeth bellach.
- **mae costau cynllunio yn effeithio'n anghyfartal ar fusnesau bach.**
- yn gyffredinol, galwai'r ymatebwyr am lacio rheoliadau cynllunio er mwyn lleihau costau ariannol ac amser y broses gynllunio bresennol i fusnesau.
- yn achos materion mwy cymhleth (ecolegol, amgylcheddol, rhywogaethau gwarchoddedig), canfyddiad busnesau oedd nad oedd gan dimau cynllunio adnoddau digonol i'w rheoli'n effeithiol – creai hyn risg buddsoddi a rwystrai benderfyniadau buddsoddi.
- roedd llawer o'r busnesau a oedd wedi ehangu wedi derbyn rhyw fath o gymorth gan Lywodraeth Cymru.
- mewn lleiafrif sylweddol o achosion, roedd camau i ehangu yn bresennol ac yn y dyfodol wedi'u cyfyngu fwy gan fynediad at gyfleustodau (hynny yw, draenio, trydan, nwy a dŵr) na chan faint o le sydd ar gael i ehangu. Er enghraifft, meddai un busnes ei fod yn cludo LNG bob dydd o Avonmouth a Chaint oherwydd diffyg seilwaith nwy, ac roedd busnes arall yn rhedeg generaduron i roi hwb i'r cyflenwad trydan.
- pan fo'r gwaith o adeiladu safleoedd newydd yn cael ei arwain gan y sector cyhoeddus, y mae'n hanfodol bod modd i'r defnyddwyr terfynol roi mewnbyn digonol i sicrhau y caiff anghenion eu prosesau penodol eu diwallu. Mewn un achos anffodus, roedd safle wedi'i anelu at fusnes penodol ond nid oedd yn cyrraedd y safonau angenrheidiol ar gyfer cynnyrch y busnes hwnnw ac felly ar y cyfan roedd yn anaddas.

Meddai busnesau y dylai cynllunwyr siarad mwy gyda busnesau i ddeall eu hanghenion o ran busnes a thwf. **Roedd busnesau'n cydnabod bod yr 'iaith' a ddefnyddir gan fusnesau a swyddogion cynllunio yn wahanol**, a nodai'r ddwy garfan o gyfweleion nad yw'r cynllunwyr yn gwybod beth yw 'safleoedd gradd bwyd'. Teimlai busnesau hefyd fod yr iaith a ddefnyddir ym mhroses ceisiadau cynllunio yn rhy dechnegol, gan olygu bod angen defnyddio ymgynghorwyr cynllunio allanol i ddehongli dogfennau a chyflwyno ceisiadau.

Cafodd rhai busnesau anhawster dod o hyd i safleoedd sy'n benodol ar gyfer prosesu bwyd, i ffwrdd o fusnesau eraill a allai draws-halogi bwydydd, a bod yn agos at gyfleustodau a gwasanaethau hanfodol. Teimlai busnesau nad oedd timau cynllunio yn deall gofynion manwl safleoedd gradd bwyd.

Mae amrywiaeth barn yn bodoli rhwng cynllunwyr a busnesau. Teimla cynllunwyr fod nifer fawr o safleoedd cyflogaeth ar gael, ond awgryma busnesau bod diffyg safleoedd gradd bwyd addas. Gallai'r canfyddiad hwn olygu:

1. Nid yw busnesau yn gwybod am safleoedd cyflogaeth neu nid yw'r safleoedd hyn 'ar gael' i fusnesau'r sector Bwyd a Diod (e.e. y maent mewn perchnogaeth breifat), a/neu;
2. Nid yw'r safleoedd cyflogaeth a gynigir gan gynllunwyr yn addas i rai o fusnesau'r sector Bwyd a Diod (e.e. am eu bod ar barciau diwydiannol sydd â busnesau a allai draws-halogi neu sydd heb gyflenwad cyfleustodau digonol), a/neu;
3. Nid oes gwybodaeth dechnegol ddigonol ar gael am safleoedd cyflogaeth i fusnesau wybod p'un a ydynt yn addas ai peidio.

Posibilrwydd arall yw bod cynllunwyr yn siarad am dir tra bo busnesau yn siarad am adeiladau. Awgryma'r cyfweiliadau y byddai'n well gan lawer o fusnesau gael safleoedd gradd bwyd yn hytrach na chodi eu hadeiladau eu hunain ar safle sydd ar gael. Nid rôl cynllunwyr yw adeiladu safleoedd ond darparu tir cyflogaeth. **Felly efallai bod angen cymorth trydydd parti naill ai i helpu busnesau i godi adeiladau ar safleoedd sydd ar gael neu ddarparu safleoedd gradd bwyd ar barciau busnes bwyd a diod.**

Mae angen gwaith ymchwil pellach i ddeall y gwahaniaeth barn hwn yn fwy pendant.

8. Casgliadau ac Argymhellion

Casgliadau

1. Mae polisiâu cynllunio ar y lefel genedlaethol a lleol yn gryf eu cefnogaeth i ddatblygu economaidd a datblygiadau sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth yn gyffredinol.
2. Ond nid yw polisiâu yn cynnig cefnogaeth benodol i'r sector gweithgynhyrchu Bwyd a Diod a gallant gyfyngu ar ddatblygu gweithgynhyrchu Bwyd a Diod mewn ardaloedd gwledig.
3. Mae nifer fawr o safleoedd cyflogaeth ledled Cymru. Felly nid bodolaeth safleoedd yw'r peth, ond p'un a yw'r safleoedd hynny yn ymarferol ac yn addas i'r sector Bwyd a Diod. Meddai rhai busnesau fod safleoedd mewn ardaloedd diwydiannol yn aml yn anaddas oherwydd materion yn ymwneud â halogi.
4. Mae mwyafrif y ceisiadau am safleoedd gradd bwyd newydd neu estynedig yn cael eu caniatáu – felly yn y rhan fwyaf o achosion nid yw'n ymddangos bod y broses gynllunio yn atal busnesau rhag ehangu (er y gallai fod yn arafu'r broses).
5. Roedd busnesau yn llawer cliriach ynglŷn â **diffyg safleoedd gradd bwyd wedi'u hadeiladu'n bwrpasol** na diffyg tir i adeiladu safleoedd felly arno. Felly efallai nad yw hyn yn gymaint o fater 'cynllunio' ag ydyw o fater datblygu.
6. Mae'r angen am safleoedd yn amrywio ledled Cymru. Mewn rhai ardaloedd, caiff safleoedd gradd bwyd eu cymryd cyn gynted ag y maent ar gael ac meddai busnesau bod angen rhagor, ond mewn ardaloedd eraill y mae safleoedd gradd bwyd gwag ar gael.

Yn ôl Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru, mae busnesau'n dweud wrthynt yn rheolaidd bod dirfawr angen ehangu arnynt ond nad oes adeiladau neu safleoedd addas ar gael a bod y rhan fwyaf o safleoedd diwydiannol yn anaddas am na fydd landlordiaid yn caniatáu uwchraddio'r adeiladau i fod yn safleoedd gradd bwyd am y byddai hynny'n cyfyngu ar eu defnydd yn y dyfodol.

Yn yr un modd, cyfeiriodd busnesau a gyfwelwyd fel rhan o'r astudiaeth hon at ffactorau'n ymwneud â chanfod safleoedd gradd bwyd a lleoliadau addas, er iddynt oll lwyddo i oresgyn y materion hyn fel nad oeddynt yn eu hatal rhag ehangu. Er hynny, dywedodd busnesau bod y materion hyn yn arafu'r broses o ehangu ac mewn rhai achosion golygodd bod y safleoedd cychwynnol gryn bellter o'r dewis leoliad gan arwain at gostau'n gysylltiedig â chludo deunyddiau crai a staff. Nodem hefyd, yn sgil pwnc yr astudiaeth, y canolbwyntiai'r cyfweiliadau ar fusnesau sydd wedi dod i gyswllt â'r broses gynllunio yn ddiweddar ac felly roeddynt yn tueddu'n naturiol tuag at fusnesau a lwyddodd i ganfod safleoedd. Y mae'n debygol bod llawer yn rhagor o fusnesau wedi profi anawsterau ac na lwyddwyd i'w goresgyn, ac felly ni fwriwyd ymlaen i gam y cais cynllunio.

Argymhellion

Ceir argymhellion manylach yn y prif adroddiad.

Dyma'r argymhellion allweddol:

1. Cynnal ymarferiad 'cwsmer cudd' i brofi pa mor addas i fusnesau'r sector **Bwyd a Diod yw safleoedd a neilltuwyd gan Awdurdodau Cynllunio Lleol ar gyfer cyflogaeth.**
2. **Creu unedau cychwynnol bach**, fel y rhai yng Nghanolfan Bwyd Cymru yn Horeb, ledled Cymru i roi lle i fusnesau newydd ac addawol.
3. Dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol ddarparu gofod cyflogaeth penodol i fusnesau'r sector Bwyd a Diod neu ddatblygwyr parciau busnes i adeiladu eu safleoedd eu hunain mewn lleoliadau sy'n addas i'r sector ac sydd â seilwaith a chlodiant digonol drwy greu **parciau bwyd fel yr un yn Cross Hands** ledled Cymru a/neu sicrhau bod safleoedd cyflogaeth presennol yn addas.
4. Creu **taflen ffeithiau neu becyn gwybodaeth i gynllunwyr** ynglŷn ag anghenion y sector Bwyd a Diod a sut mae anghenion safleoedd gradd bwyd yn wahanol i anghenion safleoedd defnydd 'B' eraill.
5. Annog swyddogion cynllunio ac economeg i gynnal **digwyddiadau gweithdai ymgynghori i'r sector Bwyd a Diod i ysgogi cynlluniau ehangu** a thrafod ystyriaethau.
6. Sicrhau bod dogfennau a ddatblygwyd i'r sector Bwyd a Diod i gynorthwyo â chynllunio ac i gynllunwyr ynglŷn â'r sector Bwyd a Diod wedi'u hysgrifennu gan ddefnyddio **iaith sy'n fwy eglur.**

7. Sicrhau bod y sector Bwyd a Diod yn **chwarae mwy o ran yn y broses gynllunio** drwy:
 - a. benodi cydlynedd i gydlynu ymatebion gan fusnesau i ddogfennau polisi cynllunio (e.e. drwy Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru)
 - b. penodi cynrychiolydd i ymateb ar ran y sector i gefnogi ceisiadau cynllunio'r sector Bwyd a Diod
 - c. annog busnesau i ymgymryd ag ymgynghoriad cyn ymgeisio ar gam cynnar²
8. **Cynyddu cymorth i'r sector Bwyd a Diod mewn polisiau cynllunio cenedlaethol a lleol.**
9. Pan gaiff arian cyhoeddus ei ddefnyddio i ddatblygu safle, **sicrhau bod y safle yn addas i'r defnyddwyr terfynol.**
 - a. y cyllidwr i sicrhau bod y defnyddwyr terfynol yn chwarae rhan lawn yn y broses ddylunio a bod ganddynt y gallu i weithredu os nad yw'r datblygiad yn diwallu eu hanghenion.
 - b. yn ddelfrydol, dylai'r datblygwr fod yn atebol drwy gontract i'r cyllidwr a'r defnyddwyr terfynol.
10. Nodi a oes camau allweddol y gellir eu cymryd i **wella seilwaith** i alluogi twf pellach yn y sector.
11. Darparu **mynediad at gymorth cynllunio arbenigol** i fusnesau'r sector Bwyd a Diod i'w helpu i fordwyo'r broses gynllunio. Gallai hyn fod yn fuddiol yn benodol i fusnesau bach y gall costau a risgiau cynllunio fod yn eu rhwystro rhag ehangu.

² Caiff ei gydnabod y bydd hyn yn angenrheidiol o fis Awst 2016 ymlaen.